

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

Gorffennaf 2020

Amgueddfa Cymru

Ymateb i COVID-19

Caeodd pob Amgueddfa i'r cyhoedd ar 16 Mawrth o ganlyniad i ddatblygiad COVID-19. Mae pob rhaglen gyhoeddus wedi'i gohirio tan ddiwedd Awst 2020, a holl weithgarwch llogi cyfleusterau a masnachol hefyd wedi'i gohirio. Adolygir y dyddiadau hyn yn rheolaidd, yn unol â chynghor gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnwyd i bob aelod o staff a chanddynt gyflwr meddygol eisoes weithio o adre o 18 Mawrth, ac ar 19 Mawrth, penderfynwyd lleihau niferoedd staff y saith amgueddfa genedlaethol a'r ganolfan gasgliadau i'r isafswm i allu sicrhau diogelwch yr amgueddfeydd a'r casgliadau cenedlaethol, a chynnal y prif weithrediadau.

Cwblhawyd adolygiad brys o'r gweithrediadau hanfodol, a rhoddwyd systemau priodol ar waith. Sicrhodd hyn y gallai unrhyw waith allweddol barhau o bell (e.e. cyflogres Adnoddau Dynol, cyllid) gyda'r adran TG yn dosbarthu gliniaduron i staff hanfodol er mwyn darparu mynediad cyflawn o bell ar gyfer gweithio o gartref erbyn 20 Mawrth.

Tynhaodd ein safiad ar y cyfnod clo erbyn diwedd y dydd 24 Mawrth. Dosbarthodd yr adran Adnoddau Dynol ganllawiau i reolwyr i'w cefnogi e.e. gweithio o bell a llesiant staff. Mae pob Pennaeth Adran yn gyfrifol am roi'r canllawiau hyn ar waith gyda rheolwyr a thimau i sicrhau y caiff cyswllt rheolaidd ei gynnal a chaiff staff eu cefnogi.

Ers dechrau'r cyfnod clo, rydym wedi parhau i adolygu'r sefyllfa'n agos, ac mae tîm o staff wedi datblygu cynlluniau manwl ar y ffordd orau i agor yr amgueddfeydd yn ddiogel, pan fydd yr amser yn iawn. Rydym hefyd wedi gweithio â Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru i ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector.

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru fydd y cyntaf o'n hamgueddfeydd i ailagor. Yn dibynnu ar gyngor Llywodraeth Cymru, bydd tiroedd awyr-agored yr Amgueddfa ar agor am rai dyddiau bob wythnos i nifer cyfyngedig o ymwelwyr o ddechrau Awst. Bydd yn brofiad gwahanol i ymwelwyr gan y bydd yn rhaid i'r tai hanesyddol a'r ardaloedd chwarae aros ar gau oherwydd y cyfyngiadau presennol, yn ogystal â'r orielau, y caffis a siopau. Er y bydd mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd o hyd, gofynnwn i ymwelwyr archebu slot amser ymlaen llaw er mwyn i ni reoli nifer yr ymwelwyr yn ddiogel. Bydd ein chwech amgueddfa genedlaethol arall yn agor ar ddiwedd Awst / dechrau Medi, gyda dyddiadau i'w cadarnhau. Mae'r costau ar gyfer ail-agor o leiaf £400k. Mae hyn yn gynnwys arwyddion newydd, PPE a sgriniau perspecs ayyb.

Ein gwaith yn ystod y cyfnod clo

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

Yn ogystal â thîm craidd o staff sydd wedi bod yn gweithio ar y safleoedd i sicrhau diogelwch yr amgueddfeydd cenedlaethol a'r casgliad cenedlaethol, rydym wedi

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

canolbwyntio ar sut y gallwn barhau i gefnogi'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethau, gan ddatblygu rhaglenni a chynnwys yn ddigidol. Lansiodd project ymchwil, Casglu Covid, gan ofyn i bobl ymateb am eu profiadau yn ystod y cyfnod hwn. Rydym eisoes wedi derbyn bron i 1,000 o ymatebion. Bydd yr ymatebion hyn yn rhan o'r cof cenedlaethol yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, gan sicrhau y bydd modd i genedlaethau'r dyfodol ddysgu am fywyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Mae rhagor o wybodaeth yma:

<https://amgueddfa.cymru/casglu-covid/>

Rydym wedi gweld newid sylweddol yn y cynulleidfaoedd rydym yn eu cyrraedd ar-lein. Mae tueddiadau'n dangos diddordeb gan wahanol segmentau'r farchnad, gyda mwy o gymunedau lleol yn ymgysylltu â ni ar ein gwefan. Mae ein casgliadau ar-lein, erthyglau a blogs yn boblogaidd ar ein gwefan – adlewyrchiad o'n rhaglenni sy'n darparu cynnwys ac adnoddau dysgu perthnasol.

Rydym hefyd yn gweld cynnydd ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â defnyddio sianeli ychwanegol a manteisio ar gynnwys cyfoethog megis fideo, sy'n sbarduno ymgysylltiad.

Pobl leol i'n hamgueddfeydd yw'r rhai sy'n ymgysylltu â ni fwyaf; byddwn yn ymdrechu i feithrin y berthynas hon â'n cynulleidfaoedd newydd yn yr hirdymor. Rydym yn cyflawni hyn drwy weithio â'n partneriaid, gwirfoddolwyr, cydweithwyr a chynulleidfaoedd eraill i rannu gwybodaeth ar sut mae ein cymunedau'n newid a sut all Amgueddfa Cymru eu cefnogi.

Rydym wedi dechrau #DyddMawrthMeddiannu i roi llais i eraill drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae cyfres o raglenni ar-lein hefyd wedi'i datblygu ar gyfer y cyfnod hwn. Ymhlith y prif themâu mae llesiant; yr effaith ar iechyd meddwl pobl nawr ac yn y dyfodol; creadigrwydd drwy ein cyfathrebu, cyfleoedd dysgu a rhaglennu; casglu – creu cof cenedlaethol; a natur ar eich stepen drws.

Rydym wedi parhau i weithio gydag ysgolion, gan ddatblygu adnoddau newydd ar y cyd â Hwb a'r Consortia ar gyfer Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i Gymru; a'r gystadleuaeth Minecraft eich Amgueddfa.

Rydym wedi parhau i gydweithio â Llamau, Barnardo's, a Plant yng Nghymru i ddarparu rhaglenni creadigol i bobl ifanc sydd o dan yr anfantais fwyaf – cynhyrchir y profiadau hyn gan ein Harweinwyr Treftadaeth Ifanc.

Effaith cau ein hamgueddfeydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu ei hymdrechion cynhyrchu incwm a chodi arian. Un o'r effeithiau mwyaf di-oed felly yw colli incwm, sydd oddeutu £400k y mis ar hyn o bryd.

Rydym wedi esbonio o'r blaen wrth y Pwyllgor a Llywodraeth Cymru bod yr Amgueddfa, er gwaethaf ein llwyddiant yn codi arian, yn ddibynnol ar nawdd Llywodraeth Cymru i gefnogi mynediad am ddim, yn ogystal â gwaith cynnal a chadw'r amgueddfeydd cenedlaethol, y casgliad cenedlaethol a'r mwyafrif o gostau

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

staff.

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

Rydym hefyd wedi gorfod canslo neu ohirio archebion llogi cyfleusterau, gan gynnwys Gwobrau a Chynhadledd Amgueddfa Ewropeaidd y Flwyddyn, fyddai wedi ei chynnal am y tro cyntaf yng Nghymru rhwng 29 Ebrill – 2 Mai. Mae llawer o bartneriaethau a phrojectau rhyngwladol hefyd wedi'u gohirio, oherwydd yr ansicrwydd ar draws y byd. Fodd bynnag, mae prif amgueddfeydd yn Asia, Awstralia a Seland Newydd mewn trafodaethau am gael arddangosfeydd teithiol gennym ni o 2022 ymlaen.

Fel pob amgueddfa genedlaethol yng ngwledydd y Deyrnas Unedig, mae Amgueddfa Cymru wedi defnyddio'r cynllun ffyrlo i adennill rhywfaint o'r incwm coll er mwyn i ni allu gwneud popeth y gallwn i ddiogelu swyddi ar gyfer y dyfodol.

Mae oddeutu 40% o'n staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo ar ryw gyfnod neu ei gilydd, am gyfnod o o leiaf 3 wythnos. Gwnaed hyn gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ac rydym hefyd wedi dod i gytundeb cynulliadol â'n hundebau llafur cydnabyddedig.

Drwy'r cynllun hwn, mae CThEM yn ad-dalu 80% o gostau cyflog staff sydd ar ffyrlo i Amgueddfa Cymru (ond dim ond 2% o gostau pensiwn), hyd at uchafswm o £2,500 y mis. Mae Amgueddfa Cymru yn talu gweddill y cyflog, ac felly caiff unrhyw un sydd ar ffyrlo ei dalu 100% o'i gyflog arferol, sy'n cynnwys cyfraniadau pensiwn.

Rydym yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi staff tra eu bod ar ffyrlo, ac rydym yn edrych ymlaen at amser pan fyddwn yn gallu bod gyda'i gilydd unwaith eto, yn gweithio yn yr amgueddfeydd cenedlaethol ac yn croesawu ymwelwyr.

Tu hwnt i Covid

Yn gynharach eleni, dechreuom ddatblygu strategaeth ddeng mlynedd i Amgueddfa Cymru, ac adolygu ein brand. Gan adeiladu ar lwyddiant Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn ennill Amgueddfa'r Flwyddyn y Gronfa Gelf 2019, ein huchelgais yw datblygu'r dull newydd hwn o weithio ar draws Cymru.

Cynlluniwyd rhaglen ymgynghori helaeth â'r cyhoedd ar draws Cymru drwy'r flwyddyn, er mwyn deall yn well yr hyn sy'n bwysig i gymunedau, sut allwn ni ychwanegu gwerth. Rydym yn parhau i ymrwymo i weithio ag eraill er mwyn datblygu'r strategaeth dros y misoedd nesaf, ac wedi adolygu ein cynlluniau er mwyn i'r ymgynghori gael ei gynnal o hyd.

Mae ein sefyllfa ariannol yn fater o bwys brys, fel yr amlinellir uchod. Rydym yn parhau i drafod hyn â Llywodraeth Cymru, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd. Ni fyddwn yn gwybod yr effaith ariannol lawn nes aildechrau ein gwaith arferol.

Black Lives Matter

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

Yn yr amser hwn o drallod eithafol i bobl dduon ledled y byd, safwn gyda chymunedau du yng Nghymru, ein hymwelwyr, partneriaid, staff a gwirfoddolwyr yn y frwydr yn erbyn anghyfartaledd ac anghyfiawnder hiliol, wrth i ni ddatgan bod bywydau du o bwys.

Mae casgliadau amgueddfeydd yn aml wedi'u gwreiddio mewn gwladychu a hiliaeth. Nid yw Amgueddfa Cymru yn eithriad yn hyn o beth.

Rydym yn cefnogi pob ymgais i greu sector amgueddfeydd sy'n sefyll yn gadarn dros hawliau dynol ac yn erbyn hiliaeth. Mae gennym rôl i'w chwarae wrth sbarduno'r newid, gan weithio gyda chymunedau Cymru i wrthwynebu hiliaeth ym mhopeth a wnawn.

Mae gwaith i'w wneud, ond ar y cyd â'n partneriaid cymunedol, gan gynnwys Race Council Cymru a'n Harweinwyr Treftadaeth Ifanc, rydym yn cynyddu amrywiaeth o fewn ein casgliadau, yn cynyddu cynrychiolaeth, ac yn cyfrannu at sgysiau sy'n tynnu sylw at ddad-wladychu, anghyfartaledd a hiliaeth.

Bydd ein hymrwymiad yn parhau y tu hwnt i'r sefyllfa bresennol, oherwydd gall deall yr heriau a wynebwyd yn y gorffennol rymuso pobl i ddod ynghyd i fynd i'r afael â materion heddiw. Bydd hyn yn rhan allweddol o'n strategaeth ddeng mlynedd newydd, ac mae bellach mewn lle blaenllaw ar ein gwefan er mwyn i bobl weld sut yr ydym yn rhoi'r datganiad hwn ar waith.

Celf mewn Ysbytai

Mae'r ysbytai maes a adeiladwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru i ddyblu capasiti'r GIG i gyd mewn gofodau wedi'u hadeiladau at ddibenion gwahanol, neu lefydd dros dro, ac mae ganddynt un peth yn gyffredin – mae'r waliau'n wag. Gofynnwyd i Amgueddfa Cymru weddnewid rhai o'r llefydd hyn yn orielau celf.

Drwy gydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru, a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru crëwyd Celf ar y Cyd – cyfres o brojectau celf gweledol uchelgeisiol sy'n ein herio i rannu'r casgliad celf ar draws Cymru yn ystod yr argyfwng. Yn y fenter gyntaf hon, gan gydweithio â Byrddau lechyd dros Gymru, ein tasg oedd helpu pobl i deimlo'n gartrefol, ac i weithio'n gyflym er mwyn i'r gofodau fod yn barod i groesawu'u cleifion cyntaf. Gan ddechrau gyda Bwrdd lechyd Hywel Dda yng ngorllewin Cymru, dewisom dirluniau arfordir y Gorllewin a bywyd gwledig lleol. Seliwyd y printiau mewn plastig gwrthficrobaidd a'u hongian gyda felcro diwydiannol er mwyn gallu eu tynnu i lawr bob dydd, eu glanhau ar y blaen a'r cefn, a'u rhoi yn ôl ar y wal.

Ein cyflwyniad cyntaf i ysbyty maes Pen-y-bont ar Ogwr, dan ofal Cwm Taf Morgannwg, oedd taith ar iPad o gwmpas ffatri ddi-ddedfnydd enfawr, dan arweiniad y tîm meddygol. Fe'i dyluniwyd fel lle i gleifion wella ar ôl cael triniaeth mewn Uned Gofal Dwys (yn nalgylch Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) i ddechrau ar eu taith hir at wellhad. Gan weithio gyda meddygon a'r tîm Celfyddydau mewn lechyd, rydym wedi gorfod dysgu'n gyflym sut i ddefnyddio

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

gweithiau celf a'i dehongliadau fel rhan o raglen gwella corfforol. Mae'r delweddau yn

Senedd Cymru / Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport

CWLC COV67

Ymateb gan Amgueddfa Cymru / Response from National Museum Wales

y ward yn disgrifio cyfoeth eithriadol bywyd arferol yn y Cymoedd, o olygfa stryd Kevin Sinnott, *Rhedeg i Ffwrdd gyda'r Torrwr Gwallt*, i dirlun gaeafol wedi'i weddnewid gan eira ym mhaentiad Ernest Zobole, *Peth Coed ac Eira*. Cawsant eu datblygu i annog y cleifion i symud, gan sbarduno symud o un gwaith i'r nesaf, gwneud canfyddiadau newydd a chysylltu â'r bobl a'r golygfeydd cyfarwydd yn y golygfeydd.

Mewn gofod adfer penodol i'r rhai sy'n paratoi i ddod gartref, mae arddangosfa o ffotograffau David Hurn o'r ardal, a gasglwyd rhwng y 1960au a'r 1980au yn gymorth i staff helpu cleifion hŷn i gofio atgofion megis y *Monday wash day, Rhondda Valley*, dathliad o arferion cyfarwydd adref.

Wrth i'r nifer o gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19 ddechrau lleihau yng Nghymru, rydym mewn trafodaethau â Byrddau Iechyd dros Gymru i ganfod dulliau newydd i sicrhau y gall y casgliad celf gael ei ddefnyddio gan dimau a chleifion y GIG mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, ar-lein ac yn y gweithle. Rydym am ddatblygu'r bartneriaeth ymhellach, a dysgu hefyd sut caiff y casgliad cenedlaethol ei weld drwy lygaid gwahanol. Mae hefyd yn ffordd wych o ddiolch i'r GIG.